

Briff Ymchwil **Bil yr Undebau Llafur (Cymru)**

- Crynodeb o Fil
- Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2
- Geirfa Gymraeg



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Osian Bowyer**

Dyddiad: **Gorffennaf 2017**

Rhif Papur: **17-007**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6296

✉ : Osian.Bowyer@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

Ar 16 Ionawr 2017, cyflwynwyd Bil yr Undebau Llafur (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Nod y Bil yw diwygio darpariaethau penodol yn y Trade Union Act 2016 (Deddf y DU 2016) sy'n "cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru."

Mae'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w datgymhwysu yn ymwneud â: didynnu tanysgriadau i undebau llafur o gyflogau, a elwir yn gyffredin yn 'check-off'; darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cyfleuster ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur; a darpariaethau sy'n ymwneud â chanran y pleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol.

Yn y papur hwn ceir crynodeb o ddarpariaethau a chefnidir y Bil.



Cynnwys

1. Rhagarweiniad	1
2. Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992	1
Darpariaeth sy'n ymwneud â didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau.	1
Darpariaeth sy'n ymwneud ag 'amser cyfleuster'	2
Darpariaethau sy'n ymwneud â phleidleisiau	2
3. Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU	2
Bil Undebau Llafur y DU a Chynnig Chydsyniad Deddfwriaethol	3
4. Cymhwysedd Deddfwriaethol	3
5. Deddf Cymru	4
6. Trosolwg cryno o Fil yr Undebau Llafur (Cymru)	5
Strwythur y Bil	5
Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil	5
Yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i ddiwygio	5
Partneriaethau cymdeithasol	5
Y diffiniad o "awdurdod datganoledig yng Nghymru"	6
Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet	7
Argymhellad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau	7
7. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael	8
Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus	8
Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y cyfyngiadau ar ddidynnu taliadau tanysgrifiadau undeb	8
Datgymhwyso'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau datganoledig yng Nghymru	9
Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y rheoliadau am amser cyfleuster	10
Datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol yn achos "gwasanaethau cyhoeddus pwysig"	10
Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ddatgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais yn achos 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig'	11
8. Gweithwyr asiantaeth	12
Rheoliadau sy'n gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol	12
Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet	12
Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol	13
Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar weithwyr asiantaeth	13

9. Ystyried y goblygiadau ariannol	13
Y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bil yr Undebau Llafur (Cymru)	13
Y costau cysylltiedig ar gyfer datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais	14
Y costau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud ag 'amser cyfleuster'14	
Y costau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres	14
10. Proses graffu'r Cynulliad.....	15
Cyflwyno'r Bil	15
Cyfnod 1	15
Cyfnod 2 a thu hwnt	15
11. Newidiadau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2.....	15
Cefndir	15
Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2	16
Gwelliannau drafftio	16
Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol.....	16
Pwerau i wneud Gorchmynion	17
12. Geirfa	18
Termau penodol yn y Bil	18

1. Rhagarweiniad

Ar 16 Ionawr 2017, cyflwynwyd **Bil yr Undebau Llafur (Cymru)** ('y Bil') a'r **Memorandwm Esboniadol** (PDF 731KB) sy'n cyd-fynd ag ef i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ('Ysgrifennydd y Cabinet').

Cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), a chyhoeddodd ei **adroddiad** (PDF 1.09MB) ar 7 Ebrill 2017.

Ar 16 Ionawr 2017, gosododd y Llywydd **ddatganiad am gymhwysedd deddfwriaethol** gerbron y Cynulliad. Hefyd, ysgrifennodd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch **cymhwysedd deddfwriaethol**.

Yn ei llythyr, mae'r Llywydd yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd ganddi wrth wneud ei phenderfyniad am gymhwysedd (gweler adran 4 – Cymhwysedd Deddfwriaethol), a chadarnhaodd fod y Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd y Cynulliad:

I gadarnhau fy marn, yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fod Bil Undebau Llafur (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad ar y Bil** yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr 2017.

2. Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (PDF 2.75MB) (Deddf 1992) yn bennaf yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar undebau llafur a chymdeithasau cyflogwyr.

Mae Deddf 1992 yn diffinio undebau llafur, yn amlinellu'r fframwaith (gan gynnwys hawliau a dyletswyddau cyfreithiol) sy'n rheoli'r ffordd y caniateir iddynt weithredu, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y caniateir gweithredu diwydiannol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar agweddau gweithredol yr undebau llafur a'u perthynas â chyflogwyr, megis didynnu taliadau tanysgrifio undebau o gyflogau gweithwyr, amser cyfleuster a phleidleisiau.

Darpariaeth sy'n ymwneud â didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau.

Mae aelodau undeb yn talu eu tanysgrifiad mewn un o ddwy ffordd; naill ai'n uniongyrchol i'w hundeb llafur, neu drwy eu cyflogwr a fydd yn tynnu tanysgrifiadau'r undeb o gyflogau eu gweithwyr ac yn trosglwyddo'r taliad yn uniongyrchol i'r undeb perthnasol. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'check-off'.

Cytundeb yw 'check-off' rhwng cyflogwyr ac undebau, ac mae'r trefniadau y cytunwyd arnynt yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth y gweithiwr.

Mae Adran 68 o Ddeddf 1992 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyflogwr ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflog gweithiwr. Ni chaniateir i'r cyflogwr wneud didyniadau dim ond pan fydd y cyflogai wedi cydsynio'n ysgrifenedig i'r cyflogwr wneud hynny, ac nad yw wedi hysbysu ei gyflogwr yn ysgrifenedig ei fod yn tynnu ei gydsyniad yn ôl.

Darpariaeth sy'n ymwneud ag 'amser cyfleuster'

Mae adrannau 168 i 172 o Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth am 'amser cyfleuster'. Dyma'r amser a ganiateir i weithwyr at ddibenion cyflawni dyletswyddau undebau llafur fel cynrychioli aelodau, yn unigolion ac yn grwpiau, mewn trafodaethau. Mae'r darpariaethau penodol mewn perthynas âg 'amser cyfleuster' yn Neddf 1992 fel a ganlyn:

- rhaid i weithwyr sy'n gynrychiolwyr undeb llafur annibynnol a gydnabyddir gan eu cyflogwr gael caniatâd i gymryd amser rhesymol i ffwrdd yn ystod oriau gwaith i gyflawni dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r undeb llafur (adran 168);
- caiff gweithwyr sy'n aelodau o undeb llafur annibynnol a gydnabyddir gan eu cyflogwr gymryd amser rhesymol i ffwrdd i gyflawni dyletswyddau Cynrychiolydd Dysgu Undeb Llafur ar yr amod fod yr undeb wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyflogwr fod y gweithiwr yn gynrychiolydd dysgu yr undeb a bod yr amod hyfforddi yn cael ei bodloni (adran 168A);
- rhaid i gyflogwr sy'n caniatáu i gynrychiolwyr undeb llafur gymryd amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau'r undeb dalu'r gweithwyr am yr amser a gymerwyd ganddynt (adran 169); a
- rhaid i'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) gyhoeddi canllawiau ar yr amser i ffwrdd a ganiateir gan gyflogwr i swyddog undeb llafur gyflawni ei ddyletswyddau (adran 169(3)). Mae'r canllawiau hyn yn y ddogfen a ganlyn: [**Code of Practice 3: Time off for trade union duties and activities**](#), a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2010.

Darpariaethau sy'n ymwneud â phleidleisiau

Mae adran 226 o Ddeddf 1992 yn pennu gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir gweithredu diwydiannol, gan gynnwys gofyniad bod yn rhaid cael pleidlais o aelodau'r undeb. Nid oes lleiafswm gofynnol o ran y nifer sy'n troi allan i bleidleisio, ond rhaid i o leiaf 50 y cant (mwyafrif syml) o'r rhai sy'n pleidleisio fwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol.

3. Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU

Cyflwynwyd Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU (Bil y DU) yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2015. Ei nod oedd newid Deddf 1992 i ddiwygio'r gyfraith ar undebau llafur mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- cyflwyno trothwyon pleidleisio newydd ar gyfer gweithredu diwydiannol: ei gwneud yn ofynnol bod 50 y cant yn troi allan i bleidleisio ar weithredu diwydiannol;
- gofyniad ychwanegol bod yn rhaid i 40 y cant o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio fwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol mewn sectorau allweddol, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig fel iechyd, addysg (o dan 17 oed) a'r gwasanaethau tân (yn ychwanegol at y gofyniad a oedd yn bodoli eisoes bod yn rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau sy'n pleidleisio mewn gwirionedd fod wedi bwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol);
- gwneud darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cyfleuster ar gyfer swyddogion undebau llafur yn y sector cyhoeddus, a hefyd
- cyfyngu ar ddiwynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus (a elwir hefyd yn 'check-off');

Bil Undebau Llafur y DU a Chynnig Chydsyniad Deddfwriaethol

Yn y Nodiadau Esboniadol i Fil y DU, dywedodd Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

The provisions of the Act extend to Great Britain. In the view of the UK Government, the matters to which the provisions of the Act relate are not within the legislative competence of the Scottish Parliament or the National Assembly for Wales; accordingly no legislative consent motions are required.

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig ar Fil y DU** gan gyfeirio at y Bil fel un sydd â'r potensial i "achosi niwed sylweddol i wead cymdeithasol ac economaidd y DU."

O ganlyniad, dadleuodd Llywodraeth Cymru y dylai cymalau penodol ym Mil y DU fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad am eu bod yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.¹ Gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar gyfer Bil y DU** ym mis Tachwedd 2015. Wrth wneud hynny, roedd yn argymhell bod y Cynulliad yn peidio â rhoi ei gydsyniad.

Trafododd y Pedwerydd Cynulliad y **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 26 Ionawr 2016** a phleidleisiodd i wrthod rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil y DU. Glynodd Llywodraeth y DU at ei safbwynt nad oedd y darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac anwybyddodd benderfyniad y Cynulliad i wrthod rhoi cydsyniad.

Cafodd Bil y DU Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2016 a daeth yn Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 (Deddf y DU). Nid yw rhai adrannau y gwrthododd y Cynulliad roi ei gydsyniad iddynt wedi dod i rym hyd yma, ond bydd hynny'n digwydd ar y diwrnod neu'r diwrnodau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol. Fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth ar gyfer y trothwyon pleidleisio i rym yng Nghymru ar 1 Mawrth 2017.

Bydd gweddill y papur briffio hwn yn cyfeirio at Ddeddf Undebau Llafur y DU.

Roedd maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016 yn cynnwys ymrwymiad i wrthdroi effaith adrannau perthnasol o Ddeddf y DU. Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, cadarnhaodd **Prif Weinidog Cymru mewn datganiad am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru** y byddai deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen i roi effaith i'r ymrwymiad hwnnw.

4. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol (ME) Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â Bil yr Undebau Llafur (Cymru), mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaethau'r Bil yn deillio o'r pynciau o dan bob un o'r 21 pennawd yn Atodlen 7 i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r rhestr o bynciau yn helaeth, ac nis cynhwysir yma. Gellir ei gweld ar dudalennau 5 i 14 o'r Memorandwm Esboniadol.

¹ Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, mae confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn y caiff basio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Mae'r cyfryw gydsyniad yn cael ei roi gan y Cynulliad drwy Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, a ategir gan y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Fel y soniwyd eisoes, mae'r Llywydd o'r farn bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ond roedd ei phenderfyniad "yn seiliedig ar ddadl agos iawn". Dywedodd ei bod wedi cael cyngor bod:

Dadleuon dilys y gellid dyfarnu fod rhai neu holl ddarpariaethau gweithredol y Bil y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, pe byddai'r Bil yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, neu'n cael ei herio ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r Llywydd yn dod i'r casgliad:

Y gellir datgan yn rhesymol fod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad....Mewn achosion datganoli blaenorol, mae'r Goruchaf Lys wedi mynegi'r farn fod adroddiadau Pwyllgorau'r Cynulliad yn cynnwys rhai o'r arwyddion cliraf o ddiben Bil – ac mae'r diben, wrth gurs, yn allweddol i'r cwestiwn a yw Bil o fewn cymhwysedd ai peidio.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod ef a Llywodraeth Cymru o'r farn a ganlyn:

The Bill is within competence because it is about management, delivery and continuity of devolved public services...Significant elements in the UK Government's Act relates specifically to public services, which, in Wales, are unambiguously devolved responsibilities.

Tra bod anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru – ac felly Cynulliad Cenedlaethol Cymru – a Llywodraeth y DU o ran cymhwysedd deddfwriaethol, nid yw'r darpariaethau yn Neddf y DU o ran amser cyfleuster a didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau wedi dod i rym yng Nghymru.

Wrth roi tystiolaeth i'r ddau Bwyllgor Cynulliad, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at lythyr a gafodd gan y Gwir Anrhydeddus Ben Gummer AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet yn y DU. Ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, roedd y llythyr yn allweddol i'r broses o graffu ar y Bil. Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl hyderus fod y Bil o fewn cymhwysedd, a dywedodd hefyd:

The Ben Gummer letter concedes arguments of competence in relation to the Bill, because we know that there was legal advice available to UK Ministers telling them that in attempting to impose their views on Wales, they were on very poor ground indeed legally.

5. Deddf Cymru

Bydd Deddf Cymru 2017, pan ddaw i rym, yn newid setliad datganoli Cymru o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau. Mewn model cadw pwerau, caiff y Cynulliad basio deddfwriaeth ar yr amod nad yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl (hynny yw, mater sy'n cael ei gadw gan Senedd y DU), a'i bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol eraill fel cysondeb â deddfwriaeth yr UE a hawliau dynol.

Bydd Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol (gan gynnwys pwnc Deddf 1992) yn fater a gedwir yn ôl pan ddaw'r rhannau perthnasol o Ddeddf Cymru 2017 i rym (rhagwelir y bydd hynny ym mis Ebrill 2018), a byddant felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

6. Trosolwg cryno o Fil yr Undebau Llafur (Cymru)

Strwythur y Bil

Mae 3 adran i'r Bil. Y brif adran yw Adran 1.

- Mae adran 1 yn gwneud pum gwelliant i Ddeddf 1992;
- Mae adran 2 yn ymwneud â chychwyn y Ddeddf;
- Mae adran 3 yn pennu enw byr y Ddeddf.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth ystyried yr opsiynau deddfwriaethol:

In one sense, this is a free-standing Bill—it stands on its own merits—but it proceeds by amendment to other Bills. Of course, we did consider a number of different ways in which we could have given effect, as we believe we are doing, to the clear views of the fourth Assembly.

...

I understand that it could be thought of as a slightly complex way of constructing a Bill, but, given that the Bill is very short, very specific, very well understood amongst the audiences who will have the most direct interest to it, we thought this was the most straightforward way to achieve what we set out to achieve.

Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Esboniadol** (PDF 731KB) i gyd-fynd â'r Bil. Mae'r Memorandwm yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n manylu ar y dewisiadau polisi a ystyriodd Llywodraeth Cymru a'r costau a'r manteision cysylltiedig o wneud y deddfwriaeth, a Nodiadau Esboniadol ar gyfer pob adran o'r Bil.

Yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i ddiwygio

Nod y Bil yw diwygio Deddf 1992, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y DU 2016. Esbonnir diben ac effaith y Bil yn adran 2 isod, ond yn gryno, nod y Bil yw datgymhwyso rhai darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n ymwneud ag awdurdodau datganoledig yng Nghymru (ceir esboniad isod). Mae'r darpariaethau fel a ganlyn:

- cyfyngiadau ar gyflogwyr mewn cysylltiad â didynnu taliad tanysgrifiadau undeb o gyflogau;
- pwerau i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster ynghyd â gosod gofynion ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â thalu am amser cyfleuster, a hefyd
- trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.

Mae amcanion polisi'r Bil hwn, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus "sydd wedi'i gwreiddio mewn egwyddorion partneriaethau cymdeithasol".

Partneriaethau cymdeithasol

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil "yn diwygio darpariaethau yn y Trade Union Act 2016 sy'n cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng

Nghymru.” Bydd, yn ôl Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith o ddadwneud effaith y darpariaethau yn Neddf yr Undebau Llafur y DU, gyda’r bwriad o ddiogelu’r modd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru yn y dyfodol.

Gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol y mae Llywodraeth Cymru wrth reoli staff y sector cyhoeddus ac ymdrin â chysylltiadau diwydiannol yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Trade Union Act y DU yn cyfyngu ar weithgareddau undebau llafur ac mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod, wrth wneud hynny, yn tanseilio’r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yma yng Nghymru.” Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y bydd Deddf y DU, pan ddaw i rym, yn rhannu cymdeithas; yn arwain at fwy o wrthdaro yn y berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac y bydd yn tanseilio’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru yn hytrach na diogelu gwasanaethau cyhoeddus fel yr haerwyd gan Lywodraeth y DU wrth i’r Trade Union Act fynd ar ei thaith drwy’r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn parhau gan nodi bod y Bil

Yn atgyfnerthu’r broses o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac mae hefyd yn cryfhau’r cyfraniad y mae hynny’n ei wneud o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae’n gwneud hynny drwy gadw trefniant sydd wedi hen ennill ei blwyf gyda’r sector cyhoeddus ac sydd, dros amser, wedi bod yn fodd i gynnal perthynas gadarnhaol rhwng cyflogwyr a chyflogeion, gan gynnwys cydnabod hawliau’r undebau llafur i drefnu gweithredu diwydiannol ac i weithredu’n ddiwydiannol mewn amgylchiadau eithafol.

Y diffiniad o “awdurdod datganoledig yng Nghymru”

Mae adran 1(5) yn diffinio'r awdurdodau cyhoeddus hynny yng Nghymru y mae'r Bil yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at y diffiniad o “devolved Welsh authority” yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodir gan adran 4 o Fil Cymru, sydd bellach yn **Ddeddf Cymru 2017**).² Yn yr adran honno, ystyr “devolved Welsh authority” yw **awdurdod cyhoeddus a bennir yn Atodlen 9A o'r Ddeddf neu sy'n arfer swyddogaethau (a) sydd yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig a (b) sydd bob un neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.**

Caiff y diffiniad yn Neddf Llywodraeth Cymru ei ddiwygio drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwywyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus datganoledig 'amlwg' yng Nghymru sydd â gweithluoedd mawr, fel cyrff y GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol, mae'r diffiniad yn cynnwys yr amryw Gomisiynwyr (ee Comisiynydd Plant Cymru), paneli cynghori (ee y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau), Pwyllgorau (ee Pwyllgor Fferyllol Cymru), tribiwnlysoedd datganoledig (ee Tribiwnlys Priso Cymru) a chyrff cyhoeddus eraill.

² Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017.

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

Wrth roi sylwadau ar yr angen am y Bil, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn awyddus i gadw'r *status quo*. Gan ymhelaethu ar hyn yn ystod sesiwn graffu gyntaf y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, datgano Ysgrifennydd y Cabinet bod:

Our Bill seeks to preserve the successful status quo, to preserve the investment that we have made in Wales on building up the social partnership model, where we think we can demonstrate its success in avoiding industrial action, in promoting good industrial relations. We think the UK Act will make that more difficult in future, that it will introduce conflictual relationships, where consensual relationships exist today. And our Bill is designed to prevent those bad consequences occurring here in Wales.

Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, mae gan y model partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru hanes llwyddiannus, a chyfeiriodd at achosion lle'r oedd partneriaethau cymdeithasol wedi llwyddo i osgoi gweithredu diwydiannol yng Nghymru. Ymhlith yr enghreifftiau hynny roedd anghydfod y diffoddwyr tân yn 2014, y sector addysg yn 2013, a'r GIG o ran meddygon iau, a staff Agenda ar gyfer Newid.

Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am y Bil

Yn ystod Cyfnod 1 o ystyried egwyddorion y Bill, clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau dystiolaeth gan gyflogwyr ac undebau llafur, a daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y trefniadau o dan Ddeddf 1992 (h.y. y rhai a oedd ar waith cyn y Ddeddf 2016) yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru a'u bod yn ffafriol i'r dull partneriaeth gymdeithasol; mae hwn yn ddull y mae Llywodraeth Cymru, yr undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus wedi ymrwymo iddo ac sydd fel pe bai'n gweithio'n effeithiol yng Nghymru.

Argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Yn ei **adroddiad Cyfnod 1** argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod y **Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil**.

7. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus

Mae Adran 15 o Ddeddf y DU yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle y caiff tanysgrifiadau undebau llafur eu didynnu o gyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus. Ni chaniateir gwneud didyniadau o'r fath oni bai bod gweithwyr yn cael y dewis i dalu eu tanysgrifiadau undeb drwy ddulliau eraill, a bod trefniadau wedi'u gwneud i'r undeb wneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr mewn perthynas â'r didyniadau.

Yn Neddf 1992, y diffiniad o "trade union subscriptions" yw "payments to a trade union in respect of a workers' membership of the union".

Mae taliadau yn "rhesymol" at ddibenion y ddarpariaeth os yw'r cyflogwr yn fodlon bod cyfanswm y taliadau'n cyfateb yn sylweddol i gyfanswm y gost i arian cyhoeddus o wneud y didyniadau.

Byddai adran 1(2) o'r Bil yn darparu na fyddai'r cyfyngiad ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus yn gymwys i awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Ychydig o wybodaeth a geir yn y Memorandwm Esboniadol am ddiben y ddarpariaeth a'r effaith y bwriedir iddi'i chael i ddileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, o ran costau, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi fel a ganlyn:

Ni chynhwysir y costau â gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â dileu amodau ar y trefniadau ar gyfer didynnu drwy'r gyflogres (didynnu taliadau tanysgrifio i undebau llafur o gyflogau). Ni wyddys y costau hynny ond bernir eu bod yn ymylol i gostau gweinyddol eraill sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol ac nid oes unrhyw reidrwydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth hwn os ydynt o'r farn bod y costau'n feichus.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi bod "asesiad effaith Llywodraeth y DU [sy'n cyd-fynd â Bil yr Undebau Llafur y DU] yn nodi bod 22% o'r cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn cael eu had-dalu ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaeth didynnu o'r gyflogres" a bod y "taliadau hyn, sy'n gymharol fach (canolrif o 2.5% o'r taliadau tanysgrifio a gesglir), yn dal i fod yn faich gweinyddol ar gyflogwyr a ariennir o'r pwrs cyhoeddus."

Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y cyfyngiadau ar ddidynnu taliadau tanysgrifiadau undeb

Safbwynt y Pwyllgor ar ddidynnu taliadau tanysgrifiadau undeb yw:

Rydym o'r farn fod y darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n ceisio cyfyngu ar wasanaethau didynnu yn ddiangen a direswm. Y maent hefyd yn dethol tanysgrifiadau undebau llafur oddi wrth daliadau eraill a wneir gan gyflogwyr ar ran cyflogeion. Ni welwn unrhyw reswm dilys dros gymhwyso'r darpariaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig yng Nghymru. Drwy ansefydlogi'r bartneriaeth gymdeithasol, efallai y bydd y darpariaethau yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yng Nghymru. Felly, rydym yn cefnogi adran 1(2) o'r Bil.

Datgymhwysu'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau datganoledig yng Nghymru

Mae Adran 13 o Ddeddf y DU yn rhoi pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion y Goron (hynny yw, aelodau o Lywodraeth y DU) ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r amser cyfleuster a ddefnyddir gan swyddogion undebau llafur perthnasol.

Y diffiniad o 'amser cyfleuster' ("facility time") yw:

"time off taken by a relevant union official that is permitted by the official's employer under—

(a) section 168, section 168A or section 170(1)(b);

(b) section 10(6) of the Employment Relations Act 1999 [accompanying a colleague to disciplinary and grievance hearings];

(c) regulations made under section 2(4) of the Health and Safety at Work etc. Act 1974 [safety representatives]".

Y diffiniad o swyddog undeb perthnasol ("relevant union official") yw—

"(a) a trade union official;

(b) a learning representative of a trade union, within the meaning given by section 168A(11);

(c) a safety representative appointed under regulations made under section 2(4) of the Health and Safety at Work etc. Act 1974."

Mae Adran 14 o Ddeddf y DU yn darparu pŵer i Weinidogion y Goron gapio, drwy reoliadau, y ganran o gyfanswm y bil cyflogau y mae cyflogwyr yn ei wario ar dalu swyddogion undeb am amser cyfleuster ac i gyfyngu ar hawliau swyddogion undeb i amser cyfleuster.

Byddai adran 1(3) o'r Bil yn datgymhwysu'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster, a'r rheoliadau sy'n ymwneud â chapio gwariant ar yr amser cyfleuster neu gyfyngu ar yr amser cyfleuster a ganiateir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd datgymhwysu'r rheoliadau ar amser cyfleuster "yn cyfrannu at gynnal y dull hwn o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol oherwydd bod yr amser hwnnw'n rhan annatod o weithio mewn partneriaeth yn y gweithle." Mae'n mynd rhagddo i restru'r "manteision cysylltiedig", gan gynnwys arbedion i'r cyflogwr ac i'r Trysorlys am fod llai o driwlynsoedd cyflogaeth yn cael eu cynnal; manteision o ran y ffaith bod llai o ddiwrnodau'n cael eu colli oherwydd anafiadau yn y gweithle; a manteision am fod llai o salwch yn y gweithle.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cyfeirio at y manteision ariannol posibl sy'n gysylltiedig ag amser cyfleuster:

Er ei bod yn anodd mesur y manteision, mae yna dystiolaeth gref a gyflwynwyd wrth i Trade Union Act y DU fynd ar ei thaith drwy'r Senedd, sy'n dangos bod manteision ariannol sylweddol yn gysylltiedig ag amser cyfleuster.

Yn ystod taith Deddf yr Undebau Llafur y DU drwy'r Senedd, ac mewn perthynas â'r gofyniad ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus i gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag amser cyfleuster, haerodd Llywodraeth y DU fod y Ddeddf wedi'i llunio er mwyn hybu tryloywder a chraffu cyhoeddus: "designed

to promote transparency and public scrutiny of facility time; and to encourage those public sector employers to moderate the amount of money spent on facility time in light of that scrutiny”.

Cyfeiriodd at yr arbedion sylweddol a wnaed ar ôl cyflwyno trefniadau adrodd yn adrannau'r Gwasanaeth Sifil, a dywedodd ei bod yn “hyderus” y byddai'r darpariaethau a oedd yn ymwneud ag amser cyfleuster yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Barn Llywodraeth y DU oedd byddai:

A reduction in spending on facility time across the wider public sector to levels similar to the civil service currently would deliver estimated savings of around £150 million annually—£150 million that could be spent on employing more nurses, on schools.

Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn cydnabod honiad Llywodraeth y DU ac yn datgan:

Nid yw'n glir sut y byddai'r manteision sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adrodd ar amser cyfleuster yn arwain, ynddynt eu hunain, at ostyngiad yn yr amser a dreulir ar amser cyfleuster pe na bai rhyw gamau pellach yn cael eu cymryd neu pe na bai rhyw newid diwylliannol mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw. Ni wyddys, felly, beth fyddai'r gost/mantais.

Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y rheoliadau am amser cyfleuster

Safbwynt y Pwyllgor ar y rheoliadau am amser cyfleuster yw:

I ni, y mater allweddol yw sicrhau bod gwiriadau a chydbwysedd addas ar waith ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus, fel bod yr amser sydd ar gael ar gyfer amser cyfleuster yn deg, yn rhesymol ac yn helpu i gynnal gweithlu sy'n gweithredu'n effeithiol.

Ar y mater hwn, clywsom dystiolaeth am amrywiaeth o drefniadau a oedd ar waith ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus i gytuno ar amser cyfleuster, a'i adolygu, a'u bod yn gweithio'n dda. Ni chlywsom dystiolaeth o gwbl a oedd yn awgrymu bod pryder ynghylch faint o amser cyfleuster a gaiff ei gymryd gan gynrychiolwyr undebau llafur. I'r gwrthwyneb, clywsom fod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ystyried cynyddu faint o amser sydd ar gael i gynrychiolwyr undebau, i gydnabod eu rôl gadarnhaol wrth helpu i baratoi'r gweithlu ar gyfer rhagor o newid trawsnewidiol.

Yng ngoleuni'r rhesymau a amlinellir uchod, rydym yn cefnogi adran 1(3) o'r Bil.

Datgymhwysu'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol yn achos “gwasanaethau cyhoeddus pwysig”

Mae adran 3 o'r Ddeddf y DU yn darparu, er mwyn medru gweithredu'n ddiwydiannol, bod yn rhaid cael pleidlais gan ddim llai na 50 y cant o holl aelodau'r undeb sydd â hawl i bleidleisio, a bod yn rhaid i ddim llai na 50 y cant o'r rhai sydd wedi pleidleisio fod wedi bwrw'u pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol. Yn ogystal, os yw'r aelodau yn darparu "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" (i'w diffinio mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol), rhaid i o leiaf 40 y cant o'r aelodau hynny sydd â hawl i bleidleisio fwrw pleidlais o blaid cymryd camau gweithredu diwydiannol.

Byddai adran 1(4) o'r Bil yn datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau ar gyfer gweithredu diwydiannol yn achos "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Yn achos rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n diffinio "gwasanaethau cyhoeddus pwysig" at ddibenion gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir gweithredu diwydiannol, mae'r Bil yn darparu na chaiff y rheoliadau hynny gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Mae llwyddiant y model [partneriaethau cymdeithasol] yn dibynnu ar sicrhau cydbwysedd yn y berthynas rhwng y partneriaid cymdeithasol ac, yn benodol, yn y berthynas rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Mae rhoi ffrwyn ar weithredu diwydiannol drwy bennu trothwy o 40% yn newid y cydbwysedd hwnnw ac nid yw'r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn effeithiol hebddo. Os na fydd yr undebau llafur yn gallu cydweithio â chyflogwyr mewn ffordd gyfartal, bydd hynny'n cael effaith andwyol ar sut y maent yn cydweithio â phartneriaid cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Ar fater y costau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi fel a ganlyn:

Ar sail asesiad effaith Llywodraeth y DU, pe na bai Cymru'n cymhwyso'r ddarpariaeth ar gyfer trothwy o 40% o'r bleidlais, byddai'r gost gysylltiedig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn llai na £85,000 y flwyddyn. Mae'r gost hon yn seiliedig ar amcangyfrif o'r effaith net a gâi colli mwy o ddiwrnodau gwaith oherwydd gweithredu diwydiannol.

Ar 1 Mawrth 2017, daeth rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' i rym ac maent bellach yn gymwys yng Nghymru.

Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ddatgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais yn achos 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig'

Safbwynt y Pwyllgor ar ddatgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais yw:

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gallai ceisio atal gweithredu diwydiannol drwy osod y trothwy pleidleisio ychwanegol newid y ffordd y mae partneriaid yn ystyried cysylltiadau diwydiannol, gydag undebau llafur a chyflogwyr yn pellhau oddi wrth ymgysylltu cadarnhaol i ddatrys anghydfodau. Clywsom am y perygl gwirioneddol y byddai'r trothwy ychwanegol yn arwain at densiynau diwydiannol amlycach, ac am yr effaith anfwriadol o gynyddu tebygolrwydd a hyd unrhyw gyfnodau o weithredu diwydiannol. Byddai gweithredu diwydiannol hwy yn anochel yn arwain at gostau uwch i gyflogwyr a gweithwyr, a byddai'n effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau dan sylw.

O ystyried yr uchod, a'r angen i sicrhau bod y dull partneriaeth gymdeithasol yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru, rydym yn cefnogi adran 1(4) o'r Bil. Rydym yn cydnabod bod y rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig', y mae'r gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant yn berthnasol iddynt,

8. Gweithwyr asiantaeth

Rheoliadau sy'n gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol

Yn ystod y datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gynigion Llywodraeth y DU i ddirymu rheoliadau sy'n atal cyflenwi gweithwyr asiantaeth i weithio yn ystod gweithredu diwydiannol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i gynnal yr egwyddor na ddylid cyflogi gweithwyr asiantaeth ar adeg o weithredu diwydiannol. Dywedodd fod opsiwn i ddeddfu ar gyfer hyn yn y Bil drwy'r broses welliannau ac y byddai'n gwneud datganiad arall ar y mater maes o law.

Mae'r gwaharddiad presennol i'w weld yn rheoliad 7 o [Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003](#) (PDF 152KB), a wnaed o dan Ddeddf Asiantaethau Cyflogaeth 1973.

Mae'r [ddogfen ymgynghori](#) (PDF 373KB) Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gyflawni'r bwriad o sicrhau na chaniateir cyflogi gweithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol. Yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yw'r canlynol:

- deddfu drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol;
- defnyddio is-ddeddfwriaeth i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddyd i gyflogwyr i gyflawni'r cynnig; a
- defnyddio'r Fframwaith Darparu Gweithwyr Asiantaeth.

Ar fater deddfwriaeth sylfaenol, mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil i wrthdroi effaith rhai agweddau ar Ddeddf y DU.

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau pam nad oedd wedi oedi rhag cyflwyno'r Bil hyd nes byddai wedi gwneud penderfyniad ar y mater, awgrymodd bod problemau o ran amseru a bod ansicrwydd am nad oedd bwriadau Llywodraeth y DU yn y maes hwn yn glir.

Ar 3 Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar barhau i wahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod gweithredu diwydiannol.

Maes o law, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n trafod y mater gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 9 Mawrth.

Wrth roi sylwadau ynghylch a oedd gan Weinidogion Cymru bwerau eisoes i wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod gweithredu diwydiannol i barhau, dywedodd ei swyddog fel a ganlyn:

Existing powers that might exist for direction and so on, if that approach were taken, might lead to a fairly complicated set of arrangements with different applications to different employers, which of itself might create a little bit more of a complicated position that's difficult to understand. So, whilst there may be room within existing

legislation, there is some argument, at least, for using a single piece of legislation in order to give a clear picture of the expectations that there would be.

Ar 27 Mawrth 2017, **ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** (PDF 160KB) i roi gwybod iddo y byddai'n **cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2** i gadw'r *status quo*, sy'n gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod gweithredu diwydiannol sy'n ymwneud ag awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Safbwynt y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol

Safbwynt y Pwyllgor ar y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol yw:

Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddod â gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth yn y Bil i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol sy'n cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig.

Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar weithwyr asiantaeth

Cyhoeddodd y Pwyllgor MCD ei **adroddiad** (PDF 860KB) ar y Bill Undebau Llafur (Cymru) ar 7 Ebrill 2017. Ynndo, mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol mewn perthynas â defnydd o weithwyr asiantaeth yn ystod gweithredu diwydiannol:

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio, yn ystod y ddadl yng Nghyfnod 1, pam nad oedd y Bil yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â gweithwyr asiantaeth wrth ei gyflwyno, gan gynnwys pam na allai'r Bil wedi bod yn ddarostyngedig i oedi byr i ddarparu ar gyfer safbwynt o'r fath.

9. Ystyried y goblygiadau ariannol

Y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, bydd:

Cost drosiannol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru oherwydd y byddai angen iddynt ymgyswrtio â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd cost untro o £61,000 i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ymgyswrtio ei hun â'r Bil. Byddai hyn, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn is na'r amcangyfrif yn asesiad effaith Llywodraeth y DU a oedd yn rhagdybio y byddai angen wyth awr i ymgyswrtio â'r gofynion. Mae asesiad effaith Llywodraeth Cymru wedi gostwng hyn i dair awr:

Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, cafodd yr amser hwnnw ei dorri i dair awr ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ar y sail bod angen llai o ymgyswrtio pan fo darpariaethau'n cael eu datgymhwyso (gan gynnwys trefniadau didynnu drwy'r gyflogres) a bod gwneud hynny'n adfer trefniadau sy'n bod ers tro ac a ddeallir yn gyffredinol.

Y costau cysylltiedig ar gyfer datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn darparu costau cysylltiedig ar gyfer datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o'r bleidlais, sef **llai na £85,000 y flwyddyn**. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif o effaith net **cyddydd mewn diwrnodau gwaith a gollir** oherwydd gweithredu diwydiannol. Fodd bynnag, nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil:

*Am nad oes fawr o ddata sy'n gysylltiedig â chynnwys y ddeddfwriaeth ar gael ar lefel Cymru, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar **gynnwys, rhagdybiaethau ac amcangyfrifon** yn nogfennau Llywodraeth y DU.*

Nid yw asesiad effaith Llywodraeth y DU ar gyfer Trade Union Act 2016 y DU yn cynnwys adolygiad manwl o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu trothwy o 40 y cant mewn 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig'.

Y costau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud ag 'amser cyfleuster'

Mae Deddf y DU 2016 yn cyflwyno'r angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gyhoeddi adroddiad blynyddol am eu gwariant ar 'amser cyfleuster'. Mae asesiad Llywodraeth Cymru o'r gost i gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn seiliedig ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU. Amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru o lunio adroddiad am 'amser cyfleuster' yw **£171,700**. Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai datgymhwyso'r elfen hon o ddeddfwriaeth y DU "yn dileu'r gost flynyddol hon i'r sector cyhoeddus."

Y costau sy'n gysylltiedig â datgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres

Mae Deddf y DU 2016 yn gosod cyfyngiadau ar ddarparu gwasanaethau didynnu drwy'r gyflogres, drwy ei gwneud yn ofynnol i undebau llafur fodloni amodau penodol. Yn ôl asesiad effaith Llywodraeth y DU mae 22 y cant o gyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael eu had-dalu ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaeth didynnu drwy'r gyflogres. Bydd y cyflogwr a'r undeb llafur yn cytuno ar y swm i'w dalu.

Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru, mae'n anodd cyfrif y costau a fyddai'n gysylltiedig â dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres, a hynny oherwydd mai:

Mater i'r cyflogwyr a'r cyflogeion yn y sector cyhoeddus gytuno arno fydd penderfynu a ddylid cynnig y gwasanaeth hwn ai peidio ac a ddylent wneud cais i gael eu had-dalu am wneud hynny. Os datgymhwysir y darpariaethau, ni fydd dyletswydd ar y cyflogwyr i ddarparu gwasanaeth didynnu drwy'r gyflogres, ac ni fydd ychwaith yn eu hatal rhag gwneud cais i gael eu had-dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Felly, ni wyddys beth fydd effaith na chost dileu'r cyfyngiadau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â didynnu drwy'r gyflogres.

10. Proses graffu'r Cynulliad

Cyflwyno'r Bil

Gwnaeth Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr 2017 ar ôl i *Fil yr Undebau Llafur (Cymru)* gael ei gyflwyno ar 16 Ionawr 2017.

Cyfnod 1

Cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1).

Ar 16 Ionawr 2017, gosododd y Llywydd ddatganiad am gymhwysedd deddfwriaethol gerbron y Cynulliad. Hefyd, ysgrifennodd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau bum sesiwn dystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 2 Chwefror 2017 a 9 Mawrth 2017. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymgyngori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 7 Ebrill 2017.

Mae rhagor o wybodaeth am broses graffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1 ar dudalen y Bil ar y we.

Hefyd, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi bwrw golwg ar y Bil ac wedi craffu arno yng Nghyfnod 1.

Cyfnod 2 a thu hwnt

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i Gyfnod 1, ac os bydd Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bill, bydd yn ddarostyngedig i welliannau gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yng Nghyfnod 2. Y dyddiad a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cwblhau'r cyfnod hwn yw 16 Mehefin 2017.

Yna, caiff Aelodau'r Cynulliad wneud rhagor o welliannau i'r Bil yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch pasio'r deddfwriaeth (Cyfnod 4).

11. Newidiadau i'r Bil yn ystod Cyfnod 2

Cefndir

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) ar 15 Mehefin 2017 gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Diben a bwriad y Bil fel y'i cyflwynwyd (fel yr eglurir yn fanwl yn adran 7) yw datgymhwyso rhai o ddarpariaethau penodol Deddf Undebau Llafur y DU 2016 mewn perthynas ag "awdurdodau Cymreig datganoledig".

Dyma dair prif ddarpariaeth y Bil:

- datgymhwyso'r cyfyngiadau sy'n atal cyflogwyr rhag didynnu tanysgrifiadau undebau o gyflogau;
- datgymhwyso pwerau i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster ynghyd â gosod gofynion ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â thalu am amser cyfleuster, a

- datgymhwysu'r trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.

Cyflwynwyd cyfanswm o **naw gwelliant**:

- bwriad tri o'r gwelliannau oedd dirymu'r darpariaethau uchod;
- gwelliannau drafftio gan Lywodraeth Cymru oedd tri ohonynt;
- roedd dau o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaharddiad parhaus ar y defnydd o weithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol; a
- cyflwynwyd un gwelliant gan Lywodraeth Cymru i gael gwared ar y pwerau yn y Bil i wneud Gorchmynion.

Derbyniwyd yr holl welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a gynigiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Gwrthododd y Pwyllgor welliannau'r wrthblaid, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AC.

Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

Isod, nodir y prif welliannau a dderbyniwyd yn ôl **grwpio gwelliannau**. O ganlyniad i'r newidiadau isod, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Memorandwm Esboniadol** diwygiedig.

Gwelliannau drafftio

Gwelliannau drafftio oedd **gwelliannau 4, 5 a 6**, a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet fel mân welliannau a gwelliannau technegol. Mae Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn mewnosod diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig yn Neddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Cafodd y tri gwelliant eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod Deddf 1992 wedi'i diwygio yn cael ei rhifo yn y drefn gywir.

Derbyniwyd yr holl welliannau drafftio gan y Pwyllgor.

Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol

Gwelliannau 7 ac 8 oedd y rhai mwyaf arwyddocaol a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd y gwelliannau'n ymwneud â defnyddio gweithwyr dros dro (gweithwyr asiantaeth) i gymryd lle gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir i gyflogwyr ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gymryd lle staff yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol. Dyma a nodir yn rheoliad 7 o ***Reoliadau Cynnal Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003***:

7.–(1) Subject to paragraph (2) an employment business shall not introduce or supply a work-seeker to a hirer to perform—

(a) the duties normally performed by a worker who is taking part in a strike or other industrial action

Bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynnig yn 2015 i ddi-ddymu'r gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn lle staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol. Wrth gynnig y gwelliant ar gyfer Bil yr Undebau Llafur (Cymru), eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

No legislative measures have been taken as a result of that consultation, but what these amendments do is safeguard the existing position for Welsh devolved public bodies.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil a gyflwynwyd ar 16 Ionawr, ac roeddent yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod y broses craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion ac Ysgrifennydd y Cabinet ei hun ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, a daeth i'r casgliad y byddai diddymu'r gwaharddiad yn:

Tanseilio gallu'r undebau llafur i ymgysylltu fel partneriaid cyfartal, a fydd, yn ei dro, yn tanseilio'r dull partneriaeth gymdeithasol. Felly, rydym yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwaharddiad yn parhau yng Nghymru.

O ganlyniad, mae **Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor** yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i:

Gynnwys darpariaeth yn y Bil i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol sy'n cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig.

Derbyniwyd y gwelliannau a gyflwynwyd i sicrhau parhad y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol.

Pwerau i wneud Gorchmynion

Mae **gwelliant 9** yn ymwneud â phwerau i wneud Gorchmynion mewn perthynas â darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed. Wrth gynnig y gwelliant, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gofyn i Lywodraeth Cymru wneud fel a ganlyn:

Keep section 2(2) in this Bill under review during its passage in front of the Assembly to see whether transitional and saving provisions were still required by the time the Bill reached the statute book.

Roedd hyn mewn ymateb i'r ffaith nad oedd Deddf Undebau Llafur 2016 wedi cychwyn eto.

Ar 1 Mawrth 2017 yn ystod trafodion Cyfnod 1 Bil yr Undebau Llafur (Cymru), **cychwynwyd Deddf 2016** gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, nid oes angen y pwerau a nodir yn adran 2(2) bellach, yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet. Felly, mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn cael gwared ar y pwerau hyn o'r Bil.

Derbyniwyd y gwelliant.

12. Geirfa

Termau penodol yn y Bil

Amser cyfleuster – Facility Time

Aseiad Effaith Rheoleiddiol – Regulatory Impact Assessment (RIA)

Awdurdod datganoledig yng Nghymru – Devolved Welsh authority

Bil yr Undebau Llafur (Cymru) – Trade Union (Wales) Bill

Cymhwysedd Deddfwriaethol – Legislative Competence

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol – Legislative Consent Motion (LCM)

Cynrychiolydd diogelwch – Safety representative

Cynrychiolydd dysgu undeb llafur – Trade union learning representative

Datgymhwyso – Disapply/Disapplication

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – Government of Wales Act 2006

Deddf yr Undebau Llafur 2016 – Trade Union Act 2016

Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 – Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992

Didynnu drwy'r gyflogres – Check-off

Didynnu taliadau tanysgrifio i undebau – Deduction of union subscriptions

Gwasanaethau cyhoeddus pwysig – Important public services

Gweithredu diwydiannol – Industrial action

Partneriaeth gymdeithasol – Social partnership

Swyddog undeb llafur – Trade union official

Trothwy pleidlais ar gyfer gweithredu diwydiannol – Ballot threshold for industrial action

Undeb Llafur – Trade Union